

CYFLWYNO CAIS AM DALIAD TAI YN ÔL DISGRESIWN



**CYNGOR AR GYFLWYNO CAIS
AM DALIAD TAI YN ÔL DISGRESIWN
PAN NAD YW'CH BUDD-DAL YN
DDIGON I DALU'CH RHENT**



RHONDDA CYNON TAF

Cyflwyniad

Pwrpas y llyfryn yma yw rhoi arweiniad i chi wrth lenwi ffurflen gais ar gyfer Taliad Tai yn ôl Disgresiwn (TTD).

Bydd modd i chi gyflwyno cais am TTD pan fydd swm y Budd-dal Tai sy'n cael ei roi i chi yn llai na swm y rhent rydych chi'n ei dalu. Fe allwch chi gyflwyno cais hefyd os ydych chi'n hawlio Credyd Cynhwysol ac mae swm yr elfen tai yn llai na'ch rhent.

Nid budd-dal yw TTD – taliad brys yw e. Mae'r gyllideb yn gyfyngedig ac yn cael ei phennu gan y Senedd. Mae rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr arian yn cael ei rannu rhwng ymgeiswyr ac yn cyrraedd y rhai hynny sydd â'r angen mwyaf. Mae hyn yn golygu, er eich bod chi efallai'n wynebu anawsterau, gall fod pob eraill sy'n ymgeisio y mae lefel eu hangen yn uwch na'ch angen chi.

All y Cyngor ddim sicrhau cymorth TTD hirdymor oherwydd bod y gyllideb yn cael ei phennu gan y Llywodraeth ganolog bob blwyddyn, ac mae nifer y ceisiadau mae'r Cyngor yn eu derbyn yn amrywio o ganlyniad i ffactorau economaidd a chymdeithasol newidiol.

Felly, yn ogystal â chyflwyno cais am gymorth ariannol, bydd rhaid i chi roi darlun llawn o'ch amgylchiadau hefyd, fel bydd modd canfod a oes ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r bwloch rhwng y budd-dal a'r rhent.

Mae'r broses ymgeisio yn edrych ar dri maes allweddol ac mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl. Bydd disgwyl i chi fod â thystiolaeth ar gyfer rhywfaint o'r wybodaeth byddwch chi'n ei rhoi i'r Cyngor. Dyma'r meysydd sy'n cael eu cynnwys:

- Eich amgylchiadau teuluol
- Sefyllfa ariannol y teulu
- Pethau gallwch chi a'ch teulu eu gwneud i newid y sefyllfa.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw ran o'r ffurflen, mae help ar gael - gweler y manylion cyswllt yng nghefn y llyfryn yma.

1. Eich amgylchiadau teuluol

Mae'r ffurflen yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau amdanoch chi ac am eich teulu. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau safonol megis enw a dyddiad geni ac ati. Mae hefyd yn gofyn pam mae angen cymorth arnoch chi ac am wybodaeth am eich eiddo. Dylech chi roi cymaint o wybodaeth â phosibl.

Mae yna gwestiynau am y bobl sy'n byw gyda chi. Dydy teuluoedd ddim bob amser yn rhai traddodiadol. Efallai mai person sy'n byw ar ei ben ei hun yw e, neu aelodau o deulu estynedig yn byw gyda'i gilydd. Bydd yn eich cynnwys chi, eich partner ac unrhyw blant sy'n byw gyda chi. Mae'r cwestiynau i gyd yn bwysig felly cofiwch ateb cymaint ohonyn nhw ag sy'n bosibl er mwyn i ni gael darlun llawn o'ch amgylchiadau. Os oes angen rhagor o le arnoch chi i roi manylion am y bobl sy'n byw gyda chi, fe gewch chi atodi darn arall o bapur.

Os oes gyda chi berthynas sy'n oedolyn neu ffrind sy'n byw gyda chi, bydd gofyn i chi lenwi'r adran "Pobl eraill sy'n byw gyda chi". Mae angen i'r Cyngor wybod am bob person sy'n byw gyda chi. Os ydych chi'n rhoi ystafell ar osod neu mae rhywun sy'n cyfrannu'n ariannol tuag at gynnal cartref, y cyfan sydd rhaid i chi'i wneud yw rhoi swm y rhent rydych chi'n ei gael.

2. Gwybodaeth ariannol

Mae angen i ni ddeall eich sefyllfa ariannol. Bydd yr wybodaeth ariannol rydych chi'n ei rhoi nid yn unig yn rhoi darlun i'r Cyngor o faint o gymorth rydych chi'i angen, ond hefyd yn eich helpu chi, a'r Cyngor, i ddeall sut rydych chi'n defnyddio'ch incwm a pha ymrwymadau ariannol sydd gyda chi.

Os na fyddwch chi'n rhoi digon o wybodaeth am eich incwm a'ch treuliau, mae'n llai tebygol y bydd TTD yn cael ei ddyfarnu i chi.

Mae enghreifftiau o incwm a gwariant i'w gweld drosodd. Dydy'r rhestr yma ddim yn hollgynhwysol ond dylai hi roi rhyw syniad i chi am yr hyn y dylech chi ei gynnwys.

Bydd angen cynnwys eich incwm a'ch treuliau chi i gyd ynghyd ag incwm a threuliau'ch partner.

2.1. Incwm

Gwaith

- Cyflog
- Incwm sy'n cael ei ennill
- Incwm o hunangyflogaeth
- Incwm mae'ch partner yn ei ennill
- Tâl salwch
- Tâl mamolaeth

Budd-daliadau

- Lwfans Ceisio Gwaith (cyfrannol neu seiliedig ar incwm)
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (cyfrannol neu seiliedig ar incwm)
- Credyd Pensiwn (gwarantedig a chredyd cynilion)
- Budd-dal Plant
- Budd-dal Analluogrwydd
- Budd-dal Gweddwon
- Lwfans Gweini
- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Gofalwyr
- Lwfans Byw i'r Anabl (elfennau gofal a symudedd)
- Taliad Annibyniaeth Personol (elfennau byw bob dydd a symudedd)
- Credyd Cynhwysol
- Budd-daliadau eraill

Incwm Arall

- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Pensiynau
- Pensiwn galwedigaethol
- Pensiwn galwedigaethol eich partner
- Pensiwn y wladwriaeth
- Pensiwn y wladwriaeth eich partner
- Pensiwn Gweddwon Rhyfel
- Cynhaliath ar gyfer plentyn
- Incwm o unrhyw ffynhonnell arall
- Rhent gan letywr/tenant
- Cyfraniad gan berson sydd ddim yn ddibynnol
- Incwm myfyriwr

Efallai bod yna gyfandaliadau sydd ar gael i chi:

- Cynilion a buddsoddiadau mae modd eu rhyddhau
- Arian gan deulu neu ffrindiau
- Arian arall bydd modd i chi'i gael

Rhowch yr wybodaeth ganlynol ar y ffurflen ar gyfer pob eitem o incwm:

Cyfnod talu

Rhowch wybod i ni pa mor aml rydych chi'n cael y taliadau yma:

Ch = bob chwarter

6 = bob chwe mis

B = bob blwyddyn

A = ddim yn gyson

Swm

Swm yr incwm yw hwn. Rydyn ni'n deall y gall cyflog newid o un cyfnod i'r llall, felly rhowch y swm cyfartalog ar gyfer eich tri chyflog diwethaf.

2.2. Treuliau

Mae'r rhestr isod ar gyfer arweiniad hefyd. Ceisiwch fod mor fanwl gywir â phosibl am eich gwariant. Bydd deall sut rydych chi'n gwario'ch incwm yn eich helpu chi ac yn helpu'r Cyngor.

Costau Tai

- Morgais neu rent (hynny yw, beth sydd ar ôl ohono ar ôl tynnu swm y Budd-dal Tai)
- Treth y Cyngor (gan ystyried unrhyw gymorth o dan y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor)
- Cyd-berchenogaeth
- Rhent tir
- Costau gwasanaethau
- Polisi gwaddol

Gwasanaethau Tai

- Dŵr
- Tanwydd cartref
- Nwy
- Trydan
- Mathau eraill o danwydd
- Yswiriant cartref

Nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y cartref

- Teledu digidol/rhynggrwyd
- Tanysgrifiadau i wasanaethau. e.e. Netflix, gwasanaeth hel achau 'Ancestry', Amazon Prime, gwasanaethau Cwmwl, ac ati
- Trwydded Teledu
- Ffôn
- Ffôn symudol
- Pethau ymolchi
- Papurau Newydd / Cylchgronau

Costau cartref/eraill

- Costau bwyd
- Prydau ysgol
- Dillad
- Costau gofal plant
- Taliadau pensiwn preifat
- Gwyliau
- Cynhaliaeth/Asiantaeth Cynnal Plant
- Babi (clytiau, bwyd babanod ac ati)

Teithio

- Petrol
- Treth ac Yswiriant Car
- Tocynnau trên
- Tocynnau bws
- Taxis
- Trwsio'r car

Dyled

- Catalogau
- Cardiau credyd
- Hurbrynu (talu fesul tipyn)
- Dirwyon blaenoriaeth
- Dirwyon y Llys Ynadon
- Dyfarniad Llys Sirol
- Dyledion eraill
- Benthyciadau oddi wrth y teulu
- Benthyciad diwrnod cyflog
- Benthyciadau eraill

Mae eitemau eraill efallai y byddwch chi am eu hystyried sydd ddim wedi'u cynnwys yn yr enghraifft uchod. Mae'r rhain yn cynnwys pethau megis sigarêts, alcohol, coffi, anrhegion, prynu bwyd o siopau prydau parod a mynd i'r sinema neu glwb chwaraeon. Efallai nad yw eitemau fel hynny yn ymddangos yn dreth ar adnoddau ond, dros flwyddyn, fe allan nhw gostio'n ddrud i chi.

Ar gyfer pob traul, rhowch yr wybodaeth ganlynol:

Cyfnod talu

Rhowch wybod i ni pa mor aml rydych chi'n gwario arian ar yr eitemau yma fel a ganlyn:

Ch = bob chwarter

6 = bob chwe mis

B = bob blwyddyn

A = ddim yn gyson

Swm

Y swm rydych chi'n ei dalu.

Math o daliad

Rhowch ddisgrifiad o'r taliad e.e. gofal plant, benthyciad, tanysgrifiad, ac ati.

3. Beth allwch chi'i wneud i helpu'ch hunan?

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gall TTD ddarparu ateb tymor hir i fwch rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai. Mae'r rhan fwyaf o'r dyfarniadau yn cael eu rhoi am gyfnod byr. Diben yr adran yma yw

- a) eich helpu i ystyried a chynllunio ffordd o ddelio â'r diffyg yma, a
- b) helpu'r Cyngor i ddeall eich amgylchiadau a phenderfynu a ydych chi'n gymwys i gael help gan y gyllideb TTD gyfyngedig, gan ystyried lefel uchel y galw am gymorth.

Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd sy'n hawlio TTD yn dod o hyd i ateb hirdymor i'r broblem ond mae'n bosibl eich bod chi angen help tra rydych chi'n rhoi'ch cynllun ar waith.

Mae'r ffurflen yn rhoi rhai syniadau ynglŷn â sut y gallwch chi ddatrys y problemau eich hun. Dim ond rhai o'r enghreifftiau fydd yn berthnasol i'ch amgylchiadau ac ar gyfer arweiniad yn unig maen nhw. Os oes angen cymorth arnoch chi i gynllunio ateb hirdymor, cysylltwch ag un o'r canolfannau yng nghefn y llyfryn yma.

Mae'r ffurflen yn gofyn i chi ystyried y canlynol:

Gweithredu Pa fath o gamau y gallwch chi'u cymryd i wneud iawn am y diffyg rhwng y Budd-dal Tai a'r rhent. Dyma rai awgrymiadau:

- Dechrau gweithio, neu gynyddu'ch oriau gwaith.
- Peidio â gwario'ch arian ar bethau sydd, yn eich barn chi, yn ddianghenraid.
- Symud i eiddo llai gan gadw'ch landlord presennol.
- Symud i eiddo llai a chael landlord gwahanol.
- Rhoi ystafell ar osod.

Efallai bod pethau eraill y gallwch chi'u gwneud, sydd ddim yn y rhestr yma - ond eich cynllun chi yw e. Os nad oes digon o le ar y ffurflen, gallwch chi atodi taflen ar wahân.

Tebygolrwydd o gyflawni hyn

Rhowch sgôr rhwng 1 a 5. Mae 1 yn golygu y byddech chi'n hoffi cymryd y cam yma ond bod yr amgylchiadau presennol yn golygu nad yw hynny'n bosibl. Mae sgôr o 5 yn golygu bydd y cam yma'n cael ei gymryd yn bendant.

Rhesymau pam y gall hyn fod yn anodd

Datganiad byr sy'n esbonio pam y gall y cam yma fod yn anodd. Er enghraifft, gall fod rhesymau meddygol neu efallai bod lefel eithriadol o uchel o ddiweithdra yn eich ardal. Efallai eich bod chi wedi llofnodi contract sy'n eich rhwystro chi rhag ymgymryd â'r dasg.

Tystiolaeth

Unrhyw dystiolaeth sy'n bodoli sy'n dangos eich bod chi'n cymryd y cam neu fod rhwystrau sy'n eich atal rhag cymryd y cam.

Dyddiad targed ar gyfer cyflawni

Dyma'r dyddiad rydych chi'n gobeithio cyflawni'r dasg.

Os oes angen help arnoch chi i lenwi'r ffurflen yma, cysylltwch ag un o'r canolfannau canlynol:

Os oes cwestiynau neu bryderon gennych chi ynglŷn â llenwi'r ffurflen gais yma, fe gewch chi drefnu apwyntiad i ymweld ag un o'r swyddfeydd canlynol:

Canolfannau iBobUn:-

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU

Llyfrgell Aberdâr, Green St, Aberdâr, CF44 7AG

Plasa'r Porth, Y Porth, CF39 9PG

Llyfrgell Treorci, Station Road, Treorci CF42 6NN

Llyfrgell Aberpennar, Knight Street, Aberpennar CF45 3EY

Canolfan Cyngor ar Faterion Tai 11–12 Heol Gelliwastad, Pontypridd, CF37 2BW

Os ydych chi'n bwriadu ymweld â Chanolfan iBobUn, trefnwch apwyntiad drwy gyrchu gwefan y Cyngor: www.rctcbc.gov.uk/archebu neu drwy ffonio 01443 425005.

Unwaith i chi lenwi'r ffurflen yma, anfonwch hi i:

Tŷ Bronwydd,

Y Porth

CF39 9DL.

